Magnox Socio-economic Funding in the Community

The Magnox socio-economic scheme provides funding to support activities that benefit the social or economic life of communities, in support of the NDA's responsibilities under the Energy Act (2004) to mitigate the socio-economic impact of its work programme where it operates. The scheme has three funding aims:

1. Being a good neighbour
2. Helping to build sustainable communities
3. Supporting transformational projects that mitigate the impact of decommissioning Magnox sites.

To date this financial year, nine community organisations in the Trawsfynydd and Meirionnydd area have benefitted from the Magnox socio-economic scheme funding, totalling £75,509.

Llys Y Llan

Magnox's socio-economic scheme has donated £50,000 to the Cylch Y Llan Trust to transform the former Grade II* St Deiniol's Church in Llanuwchllyn.

The overall £1.2M project is to purchase, restore and repair the former church building and churchyard into a new sustainable use as a Community Heritage Centre and accessible and affordable 5* tourism hostel accommodation to generate income.

The renovation will see the old Sunday school room transformed into 5* tourism accommodation along with the main church area used for exhibitions and activities with touch screen interchanging exhibitions and a mezzanine floor upstairs with seating area for browsing material.

Magnox support will provide interpretation and learning resources of the locally and nationally important visual, oral and written histories. The project has employment opportunities for a full time Heritage Learning and Facilities Officer and volunteering roles.

Artist impression of exhibition use

The Llys Y Llan Project received Heritage Lottery Funding two years ago, along with funding from CADW and Gwynedd Council, but the project was unable to purchase the building or begin restoration works until all match funding was in place, which Magnox has now provided.

Outdoor Partnership

The Outdoor Partnership was supported by the scheme last year and the project is progressing well in their second year having funded a fun filled three year project 'This Girl's Adventure'.

The aim is to inspire more women and girls from North Wales to participate in outdoor activities for health, social and economic reasons in turn giving them the confidence to follow a pathway to employment in the outdoor sector, a sector very much underrepresented by women.

The project has already seen over 200 females inspired to get active through improved links with local clubs holding introductory taster sessions, skills development, women specific coaching sessions and fast-track type programmes. These include indoor and outdoor climbing, hill-walking, kayaking, canoeing, mountain biking, skiing, sailing, surfing, stand up paddle boarding and rowing. This in turn opens routes into further learning and training allowing them to obtain nationally recognised qualifications as well as sustained employment.

A 'Women & Girls Outdoor Activity Steering Group' has been formed organising successful water sports activity weekends.

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch

Magnox supported the Deiniolen Eisteddfod with £418 towards a mobile stage for ongoing use by 3 community groups and at 2 annual community events.

The stage arrived in time for the annual Eisteddfod in October and it provided a fitting platform for the talent that came along to sing, recite and play musical instruments from noon on Saturday until 1.15 am on Sunday morning!

Magnox on the Maes

Earlier this year, in August, The National Eisteddfod of Wales, was held in Bodedern, Anglesey. It was supported with £30,000 Magnox socio-economic funding from the NDA. Magnox exhibited a stand in the Science and Technology Pavilion, as part of the sponsorship package, which was staffed by over 20 volunteers from Wylfa, Trawsfynydd and Cavendish Nuclear throughout the week to answer questions regarding both sites.

The stand displayed the Wylfa Story from the 1960s to the 2010s and engaged people of all ages with an interactive game that simulated waste segregation on Magnox sites.
The interactive game was also used at the NDA's National Stakeholder Workshop in September and the NDA's Supply Chain Event in November.

Funding is available on a rolling programme and prioritised towards building sustainable communities and mitigating the impact of decommissioning Magnox sites, where the biggest and most sustainable socio-economic benefit can be achieved.

More information on the scheme and funding criteria is available at: https://magnoxsocioeconomic.com

Magnox socio-economic scheme report 2017/18 - Trawsfynydd						
Trawsfynydd	**Organisation**	**Funding aim**	**Funding request**	**Funding award**	**Match funding**	**Description/outcome**
1	Cylch Meithrin Talsarnau	Good neighbour	£1,000	£367	£0	Wooden mud kitchen built by local supplier
2	Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch	Good neighbour	£2,724	£418	£3,775	Mobile stage for ongoing use by 3 community groups and at 2 annual community events
3	Blaenau Bendigedig	Good neighbour	£1,750	£384	£3,136	Vintage 40s Day & Classic Car Show 2017 re-usable banners, leaflets & St John Ambulance support
4	Cylch Meithrin Beddgelert	Good neighbour	£1,000	£340	£0	4 x trikes for under 5's to learn to ride.
5	Blaenau Sovereigns	Good neighbour	£1,000	£1,000	£2,000	60 dance troupe dresses made by local dressmaker
	Sub total	**5**	**£7,474**	**£2,509**	**£8,911**	
1	Dolgellau Partnership	Sustainable communities	£6,000	£6,000	£12,000	Support feasibility study for tourism information centre
2	Harlech Library and Institute	Sustainable communities	£2,000	£2,000	£0	Purchase computer equipment for Welsh lessons, computer courses and
	Sub total	**2**	**£8,000**	**£8,000**	**£12,000**	
1	Outdoor Partnership	Mitigation		£15,000		£30,000 awarded over 3 years for opening doors to the outdoors for underrepresented groups.
2	Cylch Y Llan	Mitigation	£50,000	£50,000	£1,168,200	Transform grade II listed church into heritage centre and tourism hostel
	Sub total	**2**	**£50,000**	**£65,000**	**£1,168,200**	
	Total	**9**	**£65,474**	**£75,509**	**£1,189,111**	
	Applications transferred to the NDA					
	None currently					

Cyllid Economaidd-gymdeithasol Magnox yn y Gymuned

Mae cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox yn darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau sydd o fudd i fywyd cymdeithasol neu economaidd cymunedau, er mwyn cefnogi cyfrifoldebau'r NDA dan Ddeddf Ynni (2004) i leihau effaith economaidd-gymdeithasol ei raglen waith yn yr ardaloedd lle mae'n gweithio. Mae gan y cynllun dri nod yng nghyswllt ariannu:

1. Bod yn gymydog da
2. Helpu i greu cymunedau cynaliadwy
3. Cefnogi prosiectau trawsnewid sy'n lleihau effaith datgomisiynu safleoedd Magnox.

Hyd yma'r flwyddyn ariannol hon, mae naw o fudiadau cymunedol yn ardal Trawsfynydd a Meirionnydd wedi elwa o gyllid gan gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox, sef cyfanswm o £75,509.

Llys Y Llan

Mae cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox wedi rhoi £50,000 i Ymddiriedolaeth Cylch Y Llan i drawsnewid cyn Eglwys St Deiniol, sef adeilad Gradd II* yn Llanuwchllyn.

Mae'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn brosiect £1.2M i brynu, adfer ac atgyweirio cyn adeilad yr eglwys a'r fynwent ar gyfer defnydd cynaliadwy newydd fel Canolfan Dreftadaeth Gymunedol a llety hostel dwristiaeth 5* hygyrch a fforddiadwy i gynhyrchu incwm.

Bydd y gwaith adnewyddu yn golygu gweddnewid hen ystafell yr Ysgol Sul a'i throi'n llety twristiaeth 5* ynghyd â phrif ofod yr eglwys a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau gydag arddangosfeydd newidiol ynghyd â sgrin gyffwrdd a llawr mesanîn uwchben gyda lle i eistedd i edrych ar ddeunyddiau.

Bydd cefnogaeth Magnox yn darparu adnoddau dehongli a dysgu yng nghyswllt yr hanes gweledol, llafar ac ysgrifenedig pwysig, yn lleol a chenedlaethol. Mae'r prosiect yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer Swyddog Dysgu a Chyfleusterau Treftadaeth llawn-amser yn ogystal â swyddi gwirfoddoli.

Derbyniodd Prosiect Llys Y Llan gyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ddwy flynedd yn ôl, ynghyd â chyllid gan CADW a Chyngor Gwynedd, ond ni fu modd i'r prosiect brynu'r adeilad na dechrau ar y gwaith atgyweirio hyd nes yr oedd yr holl gyllid cyfatebol yn ei le, ac mae bellach wedi'i ddarparu gan Magnox.

Argraffiadau arlunydd o'r defnydd ar gyfer arddangosfeydd

Partneriaeth Awyr Agored

Cefnogwyd y Bartneriaeth Awyr Agored gan y cynllun y llynedd ac mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda yn ei ail flwyddyn, yn dilyn cyllido prosiect tair blynedd llawn hwyl sef 'Antur y Ferch Hon'.

Y nod yw ysbrydoli mwy o ferched a genethod o Ogledd Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored am resymau iechyd, cymdeithasol ac economaidd, gan roi hyder iddynt ddilyn llwybr at gyflogaeth yn y sector awyr agored, sector lle nad oes nifer fawr o ferched yn cael eu cynrychioli.

Eisoes, mae'r prosiect wedi gweld dros 200 o ferched yn cael eu hysbrydoli i ddod yn heini drwy gysylltiadau gwell gyda chlybiau lleol sy'n cynnal sesiynau blasu cychwynnol, datblygu sgiliau, sesiynau hyfforddi arbennig ar gyfer merched a rhaglenni tebyg i rai trac cyflym. Mae'r rhain yn cynnwys dringo dan do ac yn yr awyr agored, cerdded mynyddoedd, caiacio, canŵio, beicio mynydd, sgïo, hwylio, syrffio, rhwyf-fyrddio (ar eu traed), a rhwyfo. Mae hyn yn agor llwybrau tuag at ddysgu a hyfforddi pellach a fydd yn eu galluogi i ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol yn ogystal â chyflogaeth barhaus.

Mae Grŵp Llywio Gweithgarwch Awyr Agored Merched a Genethod' wedi ei ffurfio gan drefnu penwythnosau llwyddiannus o weithgareddau chwaraeon dŵr.

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch

Rhoddodd Magnox gefnogaeth i Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen gyda £418 tuag at lwyfan symudol ar gyfer defnydd parhaus gan 3 grŵp cymunedol ac mewn 2 ddigwyddiad cymunedol blynyddol.

Cyrhaeddodd y llwyfan mewn pryd ar gyfer yr Eisteddfod flynyddol ym mis Hydref a darparodd lwyfan addas ar gyfer y doniau a ddaeth yno i ganu, adrodd a chwarae offerynnau cerdd o hanner dydd ddydd Sadwrn hyd 1.15 am fore Sul!

Magnox ar y Maes

Yn gynharach eleni, ym mis Awst, cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru, ym Modedern, Ynys Môn. Cefnogwyd yr Eisteddfod gyda £30,000 o gyllid cymdeithasol-economaidd Magnox gan yr NDA. Yr oedd Magnox yn arddangos stondin yn y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg, fel rhan o becyn nawdd, yn cynnwys staff o dros 20 o wirfoddolwyr o Wylfa, Trawsfynydd a Cavendish Nuclear gydol yr wythnos i ateb cwestiynau am y ddau safle.

Yr oedd y stondin yn arddangos Stori Wylfa o'r 1960au i'r 2010au ac yn ymgysylltu â phobl o bob oed gyda gêm ryngweithiol a oedd yn efelychu gwahanu gwastraff ar safleoedd Magnox.
Cafodd y gêm ryngweithiol ei defnyddio hefyd yng Ngweithdy Cenedlaethol Rhanddeiliaid yr NDA ym mis Medi ac yn Nigwyddiad Cadwyn Gyflenwi NDA ym mis Tachwedd.

Mae cyllid ar gael ar raglen dreigl a rhoddir blaenoriaeth i adeiladu cymunedau cynaliadwy a lliniaru effaith datgomisiynu safleoedd Magnox, lle y gellir cyflawni'r budd cymdeithasol-economaidd mwyaf a mwyaf cynaliadwy.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun a'r meini prawf ar gyfer cyllid ar gael yn: https://magnoxsocioeconomic.com

Adroddiad cynllun cymdeithasol-economaidd Magnox 2017/18						
Trawsfynydd	**Sefydliad**	**Nod cyllido**	**Cais cyllido**	**Cyllid a ddyfarnwyd**	**Cyllid cyfatebol**	**Disgrifiad/canlyniad**
1	Cylch Meithrin Talsarnau	Cymydog da	£1,000	£367	£0	Cegin mwd a adeiladwyd gan gyflenwr lleol
2	Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch	Cymydog da	£2,724	£418	£3,775	Llwyfan symudol ar gyfer defnydd parhaus gan 3 grŵp cymunedol ac mewn 2 ddigwyddiad cymunedol blynyddol
3	Blaenau Bendigedig	Cymydog da	£1,750	£384	£3,136	Diwrnod y 40'au a sioe ceir clasurol 2017, baneri, taflenni & Ambiwlans Sant Ioan
4	Cyclh Meithrin Beddgelert	Cymydog da	£1,000	£340	£0	4 x treic i blant dan 5 oed ddysgu reidio.
5	Blaenau Sovereigns	Cymydog da	£1,000	£1,000	£2,000	60 o wisgoedd i gwmni dawnsio wedi'u gwneud gan wniadwraig leol
	Is-gyfanswm	**5**	**£7,474**	**£2,509**	**£8,911**	
1	Partneriaeth Dolgellau	Cymunedau Cynaliadwy	£6,000	£6,000	£12,000	Astudiaeth dichonoldeb ar gyfer canolfan gwybodaeth twristiaeth
2	Llyfrgell Harlech	Cymunedau Cynaliadwy	£2,000	£2,000	£0	Prynu offer cyfrifiadurol ar gyfer gwersi Cymraeg, cyrsiau cyfrifiadurol a chofrestru ar gynllun Prifysgol y Drydedd Oes (U3A).
	Is-gyfanswm	**2**	**£8,000**	**£8,000**	**£12,000**	
1	Partneriaeth Awyr Agored	Cymunedau Cynaliadwy		£15,000		Dyfarnu £30,000 dros dair blynedd i agor drysau i'r awyr agored ar gyfer grwpiau wedi'u tangynrychioli.
2	Cylch Y Llan	Cymunedau Cynaliadwy	£50,000	£50,000	£1,168,200	Gweddnewid eglwys restredig gradd II yn ganolfan dreftadaeth a hostel dwristiaeth
	Is-gyfanswm	**2**	**£50,000**	**£65,000**	**£1,168,200**	
	Cyfanswm	**9**	**£65,474**	**£75,509**	**£1,189,111**	
	Ceisiadau a drosglwyddwyd i'r NDA					
	Dim ar hyn o bryd					